

Emailed to Subscribers of the
School Health Research Network (SHRN) E-list.
Don't want to receive it? [Click here](#)

[View this email in your browser](#)



Y RHWYDWAITH
YMCHWIL IECHYD
MEWN YSGOLION

THE SCHOOL
HEALTH RESEARCH
NETWORK

shrn.org.uk

e-newyddion Ysgol Gynradd SHRN SHRN Primary School e-news



Croeso i e-newsyddion Ysgol Gynradd SHRN am Mai 2026 / Welcome to the SHRN Primary School e-news for May 2026

Cynnwys

1. Ysgolion Cynradd: Ymunwch â gweminar Gwybodaeth a Chofrestru 2026 y Rhwydwaith.
2. Astudiaeth Achos Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN): Sut y cefnogodd data SHRN newid iach yn Ysgol Gynradd Llwynypia.
3. Blog y Rhwydwaith: Peilota Dangosfwrdd Data'r Rhwydwaith – Beth Ddysgom ni Oddi Wrth Ysgolion.
4. Blog y Rhwydwaith: Pam Mae Hinsawdd Ysgolion yn Bwysig.
5. Blog y Rhwydwaith: Beth Mae Ysgol Gynradd Abbey Wedi'i Ddysgu i ni am Droï Data'r Rhwydwaith yn Newid go lawn.
6. Blog y Rhwydwaith: Pam mae mwy o Ysgolion Cynradd yn Troi at SHRN i Gael Mewnwelediad Clir a Dibynadwy am Les.
7. Dangosfwrdd Data Ysgolion Cynradd SHRN Newydd i'w Lansio 18 Mehefin 2026.
8. Gwahoddiad i Ysgolion i Gymryd Rhan Mewn Ymchwil ar Ymddygiad Dysgwyr ac Iechyd Meddwl.

Contents

1. Primary Schools: Join Our 2026 SHRN Information and Registration Webinar.
2. SHRN Case Study: How SHRN Data Supported Healthy Change at Llwynypia Primary School.
3. SHRN Blog: Piloting the SHRN Data Dashboard – What We Learned From Schools.
4. SHRN Blog: Why School Climate Matters.
5. SHRN Blog: What Abbey Primary School Taught Us About Turning SHRN Data Into Real Change.

6. **SHRN Blog: Why More Primary Schools Are Turning to SHRN for Clear, Trusted Well-being Insight.**
7. **New Primary School SHRN Data Dashboard Launching 18 June 2026.**
8. **Schools Invited to Take Part in Research on Learner Conduct and Mental Health.**

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) yn

bartneriaeth ymchwil-polisi-ymarfer rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Phrifysgol Caerdydd. Nod SHRN yw gwella iechyd a lles pobl ifanc yng Nghymru trwy weithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd da ar gyfer gwella iechyd a lles.

The School Health Research Network (SHRN) is a research-policy-practice partnership between Welsh Government, Public Health Wales, and Cardiff University. SHRN aims to improve children and young people's health and well-being in Wales by working with both primary and secondary schools to generate and use good quality evidence for health and well-being improvement.

English Language Version



Fersiwn
Gymraeg



Ysgolion Cynradd: Ymunwch â'n Gweminar Gwybodaeth a Chofrestru SHRN 2026

Gwahoddir ysgolion cynradd ledled Cymru i ymuno â Gweminar Gwybodaeth a Chofrestru'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) 2026 **ddydd Iau 4 Mehefin, 3:45 – 4:45pm** (Microsoft Teams).

Mae'r sesiwn un awr hon wedi'i chynllunio i athrawon a chydweithwyr ysgolion cynradd o [Rwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles \(WNHWPS\)](#). Byddwch chi'n dysgu am broses gofrestru SHRN yn ymarferol ac am beth i'w ddisgwyl o **gasgliad data 2026**.

Bydd y weminar yn cynnwys siaradwyr gwadd o dîm Iechyd a Lles ysgol gynradd a WNHWPS, a fydd yn rhannu enghreifftiau ac awgrymiadau defnyddiol.

Byddwn ni'n ymdrin â'r canlynol yn y sesiwn:

- Manteisio i'r eithaf ar aelodaeth SHRN i gefnogi lles ysgol gyfan
- Arweiniad cam wrth gam ar gofrestru a pharatoi at gasgliad data 2026
- Sut i ddefnyddio eich data SHRN i gefnogi'r gwaith o gynllunio, gwneud penderfyniadau a gwella lles

Dyma gyfle gwych i feithrin hyder yn y broses, gofyn cwestiynau a deall sut gall SHRN gefnogi gwaith eich ysgol.

[Cofrestrwch](#) am ddim yma.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Rheolwr Ymgysylltu SHRN, [Charlotte Wooders](#).



Astudiaeth Achos Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN): Sut y Cefnogodd Data SHRN Newid Iach yn Ysgol Gynradd Llwynypia.

Defnyddiodd Ysgol Gynradd Llwynypia yn Rhondda Cynon Taf ddata eu hadroddiad o'r Rhwydwaith i sbarduno trafodaethau ysgol gyfan am iechyd a lles. Dangosodd y data fod cymeriant dyddiol o ffrwythau a llysiau ymhlith dysgwyr ym Mlynnyddoedd 3 – 6 yn is na chyfartaledd Cymru, yn enwedig ym Mlynnyddoedd 3 a 4, gan gynnig ffocws clir i weithredu.

Gan ddefnyddio data'r Rhwydwaith yn waelodlin, cytunodd staff, dysgwyr a llywodraethwyr i wneud bwyd a diod yn flaenoriaeth i'r ysgol gyfan. Gwnaeth y Cyngor Ysgol Iach ystyried y ffeithluniau a helpu i lunio ymateb yr ysgol, gan wneud yn siŵr bod llais y disgybl yn ganolog o'r cychwyn cyntaf. O ganlyniad, cyflwynodd yr ysgol amser ffrwythau pwrpasol, gwasanaethau dan arweiniad dysgwyr a phantri bwyd newydd, gan gefnogi dewisiadau iachach ar draws yr ysgol.

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y gellir defnyddio data'r Rhwydwaith yn fan cychwyn ymarferol i gael newid ystyrion. Drwy nodi problem glir yn adroddiad y Rhwydwaith, roedd yr ysgol yn gallu canolbwyntio trafodaethau ysgol gyfan, cynnwys dysgwyr wrth lunio'r ymateb, a throï data yn gamau gweithredu syml, cyraeddadwy.

Mae'r astudiaeth achos hon yn ddull defnyddiol a throsglwyddadwy, os ydych chi'n chwilio am enghraifft o'r byd go iawn i ddangos sut y gall gwybodaeth y Rhwydwaith gefnogi gwneud penderfyniadau, cryfhau llais y

disgybl a llywio blaenoriaethau iechyd a lles mewn ysgol gynradd

[Darllenwch ragor »](#)



Blog y Rhwydwaith: Peilota Dangosfwrdd Data'r Rhwydwaith: Beth Ddysgom ni Oddi Wrth Ysgolion

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ymchwilwyr [Prifysgol Caerdydd](#) o'r Ganolfan Treialon Ymchwil, [DECIPHer](#), a [Chanolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc](#), wedi cydweithredu ar ddatblygu offeryn digidol newydd i gynorthwyo ysgolion uwchradd â chael at eu data iechyd a lles o'r Rhwydwaith a'i ddefnyddio'n well.

Yn rhan o'r astudiaeth, a ariannwyd gan [Wellcome](#), fe wnaeth ymarferwyr Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles (WNHWPS) a thair ysgol uwchradd yng Nghymru helpu i beilota dangosfwrdd prototeip a oedd yn cynnwys tri chylch data'r Rhwydwaith – cyhoeddwyd [y canfyddiadau](#) yn *BMC Public Health* yn ddiweddar. Mae'r astudiaeth yn cynnig golwg sylfaenol ar sut mae ysgolion yn gweithio gyda data ar hyn o bryd a'r heriau ymarferol a wynebant. Yn y blog hwn, rydym yn rhannu darganfyddiadau'r ymchwil a pham mae'n bwysig i ysgolion.

[Darllenwch fwy »](#)



Blog y Rhwydwaith: Pam Mae Hinsawdd Ysgolion yn Bwysig

Yn y blog hwn, mae [Maria Boffey](#), Rheolwr Materion Allanol a Chyfnewid Gwybodaeth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, yn myfyrio ar y weminar ddiweddar gyda'r [Athro Graham Moore](#), a drafododd pam mae hinsawdd ysgol yn chwarae rhan mor bwysig yn iechyd meddwl pobl ifanc. Yn y sesiwn, roedd safbwyntiau Graham yn adleisio'r hyn y mae llawer o ysgolion o bob rhan o Gymru eisoes yn sôn amdano, sef bod hinsawdd yn brofiad byw sy'n cael ei deimlo bob dydd, nid ei fesur ar dudalen yn unig. Mae'r blog hwn yn dwyn ynghyd negeseuon allweddol y weminar ac yn dangos sut maen nhw'n cysylltu â gwaith parhaus y Rhwydwaith i helpu ysgolion i ddeall a defnyddio eu data.

[Darllenwch fwy »](#)

Blog y Rhwydwaith: Beth mae Ysgol Gynradd Abbey wedi'i Ddysgu i ni am Droï Data'r Rhwydwaith yn Newid go lawn



Mae'r blog hwn, a ysgrifennwyd gan **[Maria Boffey](#)**, sef Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth a Materion Allanol y Rhwydwaith, yn taflu goleuni ar Ysgol Gynradd Abbey a'r ffordd ystyrlon y defnyddiodd ei chanfyddiadau o arolwg y Rhwydwaith i ddechrau sgysiau am fywyd digidol, dylanwad a lles. Mae ei thaith yn ein hatgoffa bod newid ystyrlon yn aml yn dechrau gydag un cwestiwn a pharodrwydd i'w archwilio gyda'i gilydd

[Darllenwch fwy »](#)



Pam mae mwy o Ysgolion Cynradd yn Troi at SHRN i Gael Mewnwelediad Clir a Dibynadwy am Les

Gyda'r arolygon cynradd SHRN 2026 agor yn fuan, mae ysgolion cynradd ledled Cymru yn paratoi ar gyfer cylch newydd o mewnwelediad lles. Mae deall sut mae plant yn teimlo, yn ymdopi, ac yn profi bywyd ysgol yn banel o waith SHRN gyda ysgolion cynradd.

Yn y blog hwn, mae [Maria Boffey](#), Rheolwr Materion Allanol a Chyfnewid Gwybodaeth SHRN, yn archwilio pam mae mwy o ysgolion yn ymuno â'r rhwydwaith, beth all yr arolwg lles cynradd ei ddatgelu, a sut mae tystiolaeth glir a dibynadwy yn helpu'r staff i gryfhau eu gwaith lles ysgol gyfan. Mae'n edrych ar amser priodol ar rôl gynyddol SHRN wrth gefnogi mewnwelediad cynnar, gwneud penderfyniadau hyderus, ac agwedd gyson tuag at les dysgwr.

[Darllenwch Fwy »](#)



Dangosfwrdd Data Ysgolion Cynradd SHRN Newydd i'w Lansio 18 Mehefin 2026

Rydym yn gyffrous i rannu y bydd Dangosfwrdd Ysgolion Cynradd newydd SHRN yn cael ei ryddhau ar 18 Mehefin 2026. Bydd yr offeryn ar ei newydd wedd yn cynnig mewnwelediadau mwy hygyrch i lesiant dysgwyr, gan alw ar ddata SHRN cynrychioliadol yn genedlaethol gyda'r gallu i weld canfyddiadau ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu'r bartneriaeth gref a pharhaus rhwng SHRN ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Drwy ddod â data cynrychioliadol cenedlaethol SHRN ac arbenigedd iechyd y boblogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru at ei gilydd, rydym yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar y cyd i gefnogi cynllunio a gwneud penderfyniadau gwybodus yn well ledled Cymru.

Pam dangosfyrddau?

- Mae dangosfyrddau'n cyflwyno data cymhleth mewn ffordd glir, weledol sy'n hawdd ei ddeall.
- Yn darparu data cyson, cymharol ar draws lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Yn cynnig platfform hawdd ei ddefnyddio i archwilio canfyddiadau.
- Yn helpu i amlygu blaenoriaethau – gan ddangos ble mae pethau'n mynd yn dda a ble mae angen cefnogaeth.
- Yn arbed amser – maent yn dod â mewnwelediadau allweddol at ei gilydd yn yr un lle, gan leihau'r angen am chwilio ar draws gwahanol adroddiadau neu fformatau.

Rhowch nodyn yn eich calendrau - mae'r dangosfwrdd yn mynd yn fyw ar 18 Mehefin! Rydym yn annog ysgolion a phartneriaid i archwilio'r dangosfwrdd a defnyddio'r mewnwelediadau i lywio eu gwaith.



Gwahoddiad i Ysgolion i Gymryd Rhan Mewn Ymchwil ar Ymddygiad Dysgwyr ac Iechyd Meddwl

Mewn astudiaeth sydd ar y gweill sy'n defnyddio data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion dan arweiniad [DECIPHer](#) ym Mhrifysgol Caerdydd, bydd y myfyriwr PhD, Nicole Gelfert, yn gwahodd ysgolion uwchradd ledled Cymru i gymryd rhan mewn ymchwil ar ymddygiad dysgwyr ac iechyd meddwl.

Beth fydd o dan sylw yn yr astudiaeth?

Bydd ysgolion yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr astudiaeth yn ystod ail hanner tymor yr haf 2026.

Bydd yr astudiaeth yn cael ei chynnal o fis Medi i fis Tachwedd 2026, a bydd yn cynnwys:

- Grwpiau ffocws gyda staff ysgolion.
- Cyfweiliadau gyda dysgwyr blwyddyn 10.

Drwy ddod â safbwyntiau o bob rhan o gymuned yr ysgol ynghyd, nod yr astudiaeth yw deall profiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad dysgwyr yn well a nodi polisiau ac arferion a all gefnogi dysgwyr sy'n profi anawsterau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad. Bydd Nicole yn gweithio ar y cyd â'r ysgolion sy'n cymryd rhan i recriwtio staff a dysgwyr, a chydlynu grwpiau ffocws a chyfweliadau i gyd-fynd ag amserlenni.

Sut bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn cael eu defnyddio?

Bydd y canfyddiadau'n cyfleu realiti ysgolion a'r cyfyngiadau y maen nhw'n eu hwynebu a byddan nhw'n sail i ddatblygiad canllawiau i ysgolion a llunwyr polisiau.

Manteision cymryd rhan:

- Adroddiad cryno wedi'i deilwra y gellir ei ddefnyddio'n dystiolaeth ategol ar gyfer arolygiadau Estyn a'r Safonau Cenedlaethol arfaethedig newydd ar gyfer Hyrwyddo Iechyd a Lles mewn Ysgolion.
- Telir £250 i'r ysgol i gydnabod amser gweinyddol a chefnogaeth i'r astudiaeth (bydd y taliad yn cael ei wneud drwy anfoneb).
- Cyfle i gyfrannu at ymchwil academiaidd yn uniongyrchol, a fydd yn sail i ganllawiau ar gefnogi ymddygiad dysgwyr ac iechyd meddwl yn y dyfodol.
- Cyfle i rannu safbwyntiau staff a dysgwyr, gan sicrhau bod canfyddiadau'n cyfleu realiti cyd-destunau ysgol ac ymarfer o ddydd i ddydd.

Diddordeb mewn cymryd rhan?

Er mai drwy wahoddiad y mae modd cyfrannu ar hyn o bryd, os hoffai eich ysgol ddysgu rhagor, byddai Nicole yn hapus i gael sgwrs anffurfiol a gall ychwanegu'r rhai sy'n awyddus i gymryd rhan at restr o ysgolion sydd wedi mynegi diddordeb. Cysylltwch â Nicole yn uniongyrchol drwy e-bostio

GelfertNJ@caerdydd.ac.uk.



English Language Version



Primary Schools: Join Our 2026 SHRN Information and Registration Webinar

Primary schools across Wales are invited to join our 2026 SHRN Information and Registration Webinar on Thursday 4 June, 3:45–4:45pm (Microsoft Teams).

This one-hour session is designed for Primary School teachers and colleagues from the [WNHWPS](#). You'll get a practical walk through of the SHRN registration process and what to expect from the 2026 data collection.

The webinar will feature guest speakers from a primary school Health and Well-being team and WNHWPS, sharing real examples and helpful tips.

In the session we'll cover:

- **Making the most of SHRN membership** to support whole school wellbeing.
- **Step by step guidance** on registering and preparing for the 2026 data collection.

- **How to use your SHRN data** to support planning, decision making and wellbeing improvements.

This is a great chance to build confidence in the process, ask questions and see how SHRN can support your school's work.

Register for free [here](#).

For queries, [please contact Charlotte Wooders](#), SHRN Engagement Manager.



SHRN Case Study: How SHRN Data Supported Healthy Change at Llwynypia Primary School

Llwynypia Primary School, in Rhondda Cynon Taf, used their SHRN report data to spark whole school discussions about health and wellbeing. The data showed that daily fruit and vegetable intake among learners in Years 3–6 was below the Welsh average, particularly in Years 3 and 4, providing a clear focus for action.

Using SHRN data as a baseline, staff, learners and governors agreed to make food and drink a whole school priority. The Healthy School Council explored the infographics and helped shape the school's response, ensuring pupil voice was central from the outset. As a result, the school introduced a dedicated fruit time, learner led assemblies and a new food pantry, supporting healthier choices across the school.

This case study shows how SHRN data can be used as a practical starting point for meaningful change. By identifying a clear issue in their SHRN report, the school was able to focus whole school discussions, involve learners in shaping the response, and turn data into simple, achievable actions.

If you're looking for a real world example of how SHRN insights can support decision making, strengthen pupil voice and inform health and well-being priorities in a primary school setting, this case study offers a useful and transferable approach.

[Read more »](#)



SHRN Blog: Piloting the SHRN Data Dashboard- What We Learned From Schools

Over the past few years, [Cardiff University](#) researchers from the Centre for Trials Research, [DECIPHer](#), and [Wolfson Centre for Young People's Mental Health](#), collaborated on the development of a new digital tool to support secondary schools to better access and use their SHRN health and well-being data.

As part of the study, funded by [Wellcome](#), WNHWPS practitioners and three secondary schools in Wales helped pilot a prototype dashboard containing three rounds of SHRN data – [the findings](#) of which have recently been published in *BMC Public Health*. The study provides a

grounded look at how schools currently work with data and the practical challenges they face. In this blog, by [Maria Boffey](#), we share what the research found and why it matters for schools.

[Read here »](#)



SHRN Blog: Why School Climate Matters

In this blog, [Maria Boffey](#), SHRN External Affairs and Knowledge Exchange Manager, reflects on our recent webinar with [Professor Graham Moore - People - Cardiff University](#), which explored why school climate plays such an important role in young people's mental health. The session highlighted how strongly Graham's insights echo what many schools across Wales already tell us, that climate is something lived and felt every day, not just measured on a page. This blog brings together the key webinar messages and shows how they connect with SHRN's ongoing work to help schools understand and use their own data.

[Read more »](#)

SHRN Blog: What Abbey Primary School Taught us About Turning SHRN Data into Real Change



This blog, written by [Maria Boffey](#), SHRN Knowledge Exchange and External Affairs Manager, shines a light on Abbey Primary School and the thoughtful way they used their SHRN findings to open up conversations about digital life, influence and well-being. Their journey is a reminder that meaningful change often begins with one question and a willingness to explore it together.

[Read more »](#)



SHRN Blog: Why More Primary Schools Are Turning to SHRN for Clear, Trusted Well-being Insight

With the 2026 SHRN primary survey opening soon, primary schools across Wales are preparing for a new cycle of well-being insight. Understanding how children are feeling, coping, and experiencing school life sits at the heart of SHRN's work with primary schools.

In this blog, [Maria Boffey](#), SHRN's External Affairs and Knowledge Exchange Manager, explores why more schools are joining the network, what the primary well-being survey can reveal, and how clear, trusted evidence is helping staff strengthen their whole-school well-being work. It's a timely look at SHRN's growing role in supporting early insight, confident decision-making, and a consistent approach to learner well-being

[Read more »](#)



New Primary School SHRN Data Dashboard Launching 18 June 2026

We're excited to share that the new SHRN Primary School Dashboard will be released on 18 June 2026. The updated tool will offer more accessible insights into learner well-being, drawing on nationally representative SHRN data with the ability to view findings at national and regional levels.

This work reflects the strong and ongoing partnership between SHRN and Public Health Wales. By bringing together SHRN's nationally representative data with Public Health Wales' population health expertise, we are jointly strengthening the evidence base to support better-informed planning and decision-making across Wales.

Why dashboards?

- Dashboards present complex data in a clear, visual way that's easy to understand.
- Provide consistent, comparable data across national and regional levels.
- Offers a user-friendly platform to explore findings.
- Helps highlights priorities – showing where things are going well and where support is needed.
- Saves time – brings key insights together in one place, reducing the need to search across different reports or format.

Mark your calendars- the dashboard goes live on 18 June! We encourage schools and partners to explore the dashboard and use the insights to inform their work.



Invitation for Schools to Take Part in Research on Learner Behaviour and Mental Health

In a forthcoming study using School Health Research Network (SHRN) data, led by DECIPHer at Cardiff University, PhD student Nicole Gelfert will invite secondary schools across Wales to take part in research on learner behaviour and mental health.

What will the study involve?

Schools will be invited to take part during the second half of the summer term 2026.

The study will take place between September and November 2026 and will include:

- Focus groups with school staff
- Interviews with Year 10 learners

By bringing together perspectives from across the school community, the study aims to better understand experiences related to learner behaviour and to identify policies and practices that can support learners experiencing behaviour-related difficulties. Nicole will work collaboratively with participating schools to recruit staff and learners, and to arrange focus

groups and interviews around school timetables.

How will the findings be used?

The findings will reflect the realities schools face and the constraints they work within, and will inform the development of guidance for schools and policymakers.


Benefits of taking part:

- A tailored summary report that can be used as supporting evidence for Estyn inspections and the proposed new National Standards for Health and Well-being Promotion in Schools.
- A payment of £250 to the school in recognition of administrative time and support (paid via invoice).
- An opportunity to contribute directly to academic research that will inform future guidance on supporting learner behaviour and mental health.
- An opportunity to share staff and learner perspectives, helping ensure findings reflect real school contexts and day-to-day practice.

Interested in taking part?

Although participation is currently by invitation only, if your school would like to find out more, Nicole would be happy to have an informal conversation and can add interested schools to a list of those who have expressed interest. Please contact Nicole directly at:

GelfertNJ@cardiff.ac.uk.



**Dysgwch fwy am ein gwaith /
Learn more about our work**



Cysylltwch â ni / Contact us

Os oes gennych unrhyw
gwestiynau neu adborth am

Cyrchwch ein llyfryn gwybodaeth,
porwch drwy ein hadroddiadau,
darllenwch am ein llwyddiannau
a'n heffeithiau a llawer mwy...

unrhyw beth yn yr e-newyddion
hwn, neu SHRN ei hun, anfonwch
neges e-bost at Maria Boffey,
Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth a
Materion Allanol SHRN:

BoffeyM1@cardiff.ac.uk

[Dysgu mwy »](#)

Access our information brochure,
browse our reports, read about
our successes and impacts and
much more...

If you have any questions or
feedback about any of the content
in this e-news, or SHRN itself,
please email Maria Boffey, SHRN
Knowledge Exchange and External
Affairs Manager:

BoffeyM1@cardiff.ac.uk

[Read more »](#)

[YouTube](#) [Website](#) [Email](#) [LinkedIn](#)

Copyright © 2026 School Health Research Network, All rights reserved.

Want to change how you receive these emails?
You can [update your preferences](#) or [unsubscribe from this list](#).

